CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Grant gwella diogelwch tân adeiladau tai cymdeithasol

Cyfeirnod y cymhorthdal SC10804 - cyllid grant i unioni problemau â diogelwch tân mewn tai cymdeithasol sy’n rhan o adeiladau preswyl uchel a lled-uchel.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Gorffennaf 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 29 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-gwella-diogelwch-tan-adeiladau-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Pwyntiau i'w nodi

Rhanbarth

Teitl

Sail gyfreithiol

Amcanion

Awdurdodau cyhoeddus

Cymhwysedd

Sectorau

Hyd

Cyllideb

Ffurf y cymorth

Telerau ac amodau

Cyfrifo cymorthdaliadau

Cymhorthdal mwyaf

Gwybodaeth gysylltu



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-gwella-diogelwch-tan-adeiladau-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Pwyntiau i'w nodi

Os ydych yn defnyddio’r cynllun hwn i ddyfarnu cymorthdaliadau, rhaid ichi roi gwybod i’r Uned Rheoli Cymorthdaliadau drwy anfon e-bost i: **yrunedrheolicymorthdaliadau@llyw.cymru**

## 1. Rhanbarth

Cymru gyfan

## 2. Teitl y Cynllun Cymhorthdal

Grant Diogelwch Adeiladau Tai Cymdeithasol

## 3. Sail gyfreithiol y DU

Mae Gweinidogion Cymru’n cael talu grant, o dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (“Deddf 2003”), i awdurdod lleol tuag at gostau sydd wedi neu sydd i’w hysgwyddo gan yr Awdurdod Lleol hwnnw. Mae Adran 31(3) o Ddeddf 2003 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu swm y grant ac mae adran 31(4) yn darparu y gellid talu’r grant o dan amodau y gall Gweinidogion Cymru eu pennu. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi cyllid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o dan adran 18(1) o Ddeddf Dai 1996 mewn cysylltiad â’u gweithgareddau tai. Mae adran 18(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gweithdrefn, amgylchiad, dull neu swm y grant a delir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-gwella-diogelwch-tan-adeiladau-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 4. Amcanion y Cynllun

Cyllid grant i unioni problemau â diogelwch tân mewn tai cymdeithasol sy'n rhan o adeiladau preswyl uchel a lled-uchel.

## 5. Yr Awdurdod Cyhoeddus sydd wedi'i awdurdodi i roi'r Cynllun ar waith

Llywodraeth Cymru

## 6. Categorïau o fentrau sy'n gymwys

Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn unig.

## 7. Sector(au) a gefnogir

- Llety a gwasanaethau bwyd
- Adeiladu
- Iechyd pobl a gwaith cymdeithasol

## 8. Hyd y Cynllun

10 Chwefror 2023 tan 31 Mawrth 2026

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-gwella-diogelwch-tan-adeiladau-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 9. Cyllideb ar gyfer cymorth o dan y Cynllun

£40,000,000

# 10. Ffurf y cymorth

Bydd yr holl gymhorthdal o roddir o dan y Cynllun yn cael ei roi ar ffurf grant.

# 11. Telerau ac amodau cymhwysedd

Dyma'r prif feini prawf i fod yn gymwys:

- Mae'r gronfa'n agored i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol
- Bydd yn helpu gwaith cyweirio problemau diogelwch tân a strwythurol mewn adeiladau preswyl uchel a lled-uchel, sef y rhai 11 metr o daldra neu uwch (mwy na phedwar llawr o uchder).
- Mae'r problemau diogelwch tân fydd wedi'u nodi yn y mannau dan sylw yn seiliedig ar asesiad o'r risg ac mae'r mesurau wedi'u hymgorffori yn y cynllun diogelwch tân.

# 12. Y sail ar gyfer cyfrifo cymorthdaliadau

Mae Llywodraeth Cymru'n dyfarnu grant o hyd at 100% ar gyfer gwaith diogelwch tân, ar sail asesiad o'r cais am grant sy'n ymdrin â'r diffygion diogelwch tân o dan un neu fwy o'r meini prawf isod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-gwella-diogelwch-tan-adeiladau-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd y cyllid yn cefnogi pum maes:

a. Systemau synhwyro tân a larwm. Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyfredol, gan gwmpasu'r adeilad cyfan ac yn integreiddio â chynllun diogelwch tân ehangach yr adeiladau.
b. Systemau i gael pobl allan o'r adeilad. I gyd-fynd â'r cynllun diogelwch tân. Rhaid i'r system allu gofyn i bobl aros, gwacáu rhan o'r adeilad neu gwacáu'r adeilad cyfan.
c. System llethu tân. Mae system llethu tân da a chynhwysfawr yn ffordd effeithiol o leihau'r perygl o anaf neu farwolaeth oherwydd tân.
d. Compartmenteiddio. Mae hyn yn ymwneud â chadernid y waliau a'r lloriau o gwmpas pob fflat ac â gallu drysau ffrynt i atal tân, mwg a nwyon hylosg eraill rhag lledaenu. Cynhwysir mesurau compartmenteiddio mewn mannau cyhoeddus fel drysau atal tân/mwg i rwystro mwg a nwyon hylosg eraill rhag lledaenu o'r mannau sydd ar dân, ac yn bendant rhag lledaenu i'r mannau dianc neu rhwng lloriau. Bydd angen compartmenteiddio llwybrau dianc yn drwyadl i sicrhau y gall yr holl drigolion eu defnyddio pan fydd angen gwacáu'r adeilad.
e. Cladio'r waliau allanol o'r newydd. Arolygon trylwyr o'r adeiladau dan sylw i nodi'r risgiau/diffygion diogelwch tân, a chladio waliau allanol a gwaith adeiladu cysylltiedig. Gwaith gosod deunydd cladio newydd yn lle'r hen ddeunydd cladio a gwaith adfer, ynghyd â mesurau lliniaru technegol i sicrhau na all tân ledaenu trwy adeiladwaith allanol yr adeilad.

# 13. Y cymhorthdal mwyaf a ganiateir o dan y cynllun

£8,000,000

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-gwella-diogelwch-tan-adeiladau-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 14. Gwybodaeth gysylltu

**Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Cymru

**Rhif ffôn:** + 44 (0)3000 604 400
**E-bost:** **yrunedrheolicymorthdaliadau@llyw.cymru**

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.

Uned Rheoli
Cymorthdaliadau
Subsidy
Control Unit

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-gwella-diogelwch-tan-adeiladau-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.